

Gwers 23 – Baban Mair

Nodiadau Cefndir i'r Athro

Luc 1:26–38, 2:1–7

Nid yw enw awdur yr Efengyl yn ymddangos yn y llyfr ond y gred yw mai Luc, cydymaith Paul, sy'n gyfrifol am ysgrifennu hanes bywyd a gweinidogaeth Iesu. Y tebygrwydd yw iddo ysgrifennu'r Efengyl tua 65–70 OC, er bod rhai ysgolheigion yn ffafrio dyddiad hwyrach, tua 80–85 OC. Meddyg ydoedd (Col. 4:14), Cenedl-ddyn ac nid Iddew, ac ef a ysgrifennodd Lyfr yr Actau. Yn wahanol i Mathew a ysgrifennodd ei Efengyl ar gyfer Iddewon, ysgrifennodd Luc ar gyfer Cenedl-ddynion, h.y. ar gyfer pob un nad oedd yn Iddew. Wrth gyflwyno'r Efengyl i un, Theofilus (Un sy'n caru Duw), dywed Luc mai ei nod yw cofnodi'r hyn a ddigwyddodd 'er mwyn i iti gael sicrwydd am y wybodaeth a dderbyniaist' (1:4). Dywed ar y dechrau ei fod 'wedi ymchwilio yn fanwl i bopeth o'r dechreuad' (1:3) am y 'pethau a gyflawnwyd yn ein plith, fel y traddodwyd hwy inni gan y rhai a fu o'r dechreuad yn llygad dystion ac yn weision y gair' (1:2).

Arwyr ei Efengyl yw canwriad Rhufeinig a Samariad o achubwr, ac y mae'n olrhain achau Iesu yn ôl i Adda. Y mae hefyd yn cynnwys caneuon a gysylltir gyda'r prif gymeriadau, e.e. Emyr Mawl Mair (1:46–55), Proffwydoliaeth Sachareias (1:68–79), a Nunc Dimmitis Simeon (2:29–32).

Nid yw Luc yn dyfynnu Eiseia fel y gwna Mathew, ond efallai fod hynny'n cryfhau'r syniad fod yr Eglwys Fore yn ystyried Yr Enedigaeth Wyrthiol fel ffaith hanesyddol.


Cyfeiria Luc at wyrth arall, sef bod Elisabeth, cyfnither Mair, 'wedi beichiogi ar fab yn ei henaint' (1:36). Roedd Elisabeth a Sachareias wedi cyrraedd oedran mawr ac yr oedd hithau'n ddiffwrwyth (Luc 1:5ym). Byddai plentyn Elisabeth, Ioan, yn paratoi'r ffordd ar gyfer mab Mair, y Meseia (gweler Luc 3).

Mair

Ffurf Roegaidd o'r enw Miriam yw Mair. Adwaenir hi fel 'y Forwyn Fair' oherwydd ganwyd Iesu o'r Ysbryd Glân, ond ar ôl geni Iesu cafodd Mair ragor o blant gyda'i gŵr, Joseff (gweler Mathew 13:55 a Marc 6:3). Geneth ifanc oedd Mair pan briododd hi Joseff; gallai priodferch fod mor ifanc â 12 oed yn y dyddiau hynny, ond oherwydd ei hymateb i'r ffaith ei bod yn feichiog mae'n debygol ei bod hi ychydig yn hŷn, yn ei harddegau canol o bosib. Deuai o deulu cyffredin a thlawd ond y mae ei hymateb i ddewisaid Duw yn dangos dirnadaeth ysbrydol rhyfeddol (gweler Emyr Mawl Mair [Luc 1:46–55]). Roedd Mair wrth y groes yn gwyllo'i mab yn dioddef marwolaeth erchyll, ac yr oedd ymhlith y rhai cyntaf i wybod am ei atgyfodiad ar ôl ymweld â'r bedd. Meddai ar natur benderfynol a dewr, yn barod i wynebu gwawd a hyd yn oed cosb am ufuddhau i Dduw.

Yr Enedigaeth Wyrthiol

Byddai 'beichiogiad gwyrthiol' Iesu'n gywir. Y mae Luc a Mathew yn cyfeirio at y modd y cenhedlwyd Iesu. Gwneir hyn er mwyn pwysleisio fod Iesu yn Fab Duw. Dewisodd Duw ddod â'i Fab i'r byd trwy gyfrwng gwyrth. Mae'r ddau efengyllydd yn cyfeirio at broffwydoliaethau sy'n sôn am 'ferch ifanc' yn esgor ar fab a elwir Immanuel (Eiseia 7:14).



Ganwyd Iesu mewn stabl ym Methlehem. Lapiodd Mair ef mewn cadachau a'i roi i orwedd yn y preseb.
Lliwia'r llun hwn gyda chreonau neu binnau ffelt.

Cei ddarllen yr hanes yn Luc 2:7.

Gwers 23 – Baban Mair

Geni Iesu | Luc 1:26–38; 2:1–7

Beibl Gweithgaredd y Plant / Lleiaf tud. 100



Gwers 23

Baban Mair

BEIBL GWEITHGAREDD Y PLANT DAN /DROS 7 oed

Baban Mair tud 100

BEIBL LLIW STORI DUW

Dau fabi arbennig tud 215

Y geni ym Methlehem tud 218

BEIBL BACH STORI DUW

Dyma fe! Tud 176

BEIBL NEWYDD Y STORIWR

Y Nadolig cyntaf tud 84

BEIBL LLIW Y PLANT

Angel yn dod at Mair tud 186

BEIBL NEWYDD Y PLANT

Neges i Mair tud 121

BEIBL BACH I BLANT

Mair a'r Angel tud 284

Y BEIBL I BLANT MEWN 365 STORÏAU

Gobeithio a gweddio (238) tud 274

Taith i'r bryniau (240) tud 276

BEIBL LLIW Y TEULU

Neges Gabriel (224) tud 123

I Ddechrau ...

Newyddion da neu ddrwg?

Casglwch 2/3 papur newydd yr un fath. Gwnewch restr o flaen llaw o tua 10 pennawd sy'n cynnwys newyddion da a drwg. Yn amlwg, bydd angen bod yn ofalus beth rydych yn eu dewis. Ceisiwch gynnwys hanes am berson/pobl yn cael eu hachub – bydd yr hanes yn cael sylw nes ymlaen yn y wers hefyd.

Rhannwch y dosbarth yn ddau neu dri thîm a gofyn iddynt ddod o hyd i'r penawdau; er mwyn ei gwneud hi'n anos, gellir rhoi cliwiau ynglŷn â'r penawdau. Bydd y tîm cyntaf i ddod o hyd i'r pennawd yn cael pwynt, a chewch weld pwy sydd â'r cyfanswm mwyaf o bwyntiau ar ddiwedd y gêm. Dewiswch un neu ddau bennawd i'w trafod wedi'r gêm. Gwnewch y pwynt fod bywyd yn llawn o newyddion da a drwg. Adeg y Nadolig rydym yn cofio mai Iesu yw'r newyddion gorau erioed.

Rhowch gliw i mi

Ar ddarnau unigol o bapur, ysgrifennwch wahanol swyddi, e.e. Athro, Torrwr gwallt, Dyn tân, Cogydd, Pêl-droediwr, Deintydd, Gweithiwr siop. Gofynnwch am wirfoddolwyr i feimio'r swyddi o flaen y dosbarth, er mwyn i bawb arall geisio dyfalu beth yw'r swydd. Dywedwch fod Iesu wedi dod i'r byd i wneud swydd arbennig iawn, a dyma yw'r rheswm dros ddathlu'r Nadolig.

Yr Hanes ...

Darllenwch yr hanes gan ddefnyddio 'Beibl Gweithgaredd y Plant' neu un o'r llyfrau yn y Rhestr Adnoddau. Wedyn, defnyddiwch y syniad canlynol i atgyfnerthu a chymhwyso'r stori. Neu, defnyddiwch y syniad canlynol wrth i chi adrodd yr hanes yn eich geiriau eich hun.

Llun a stori

Casglwch set o gardiau Nadolig gyda'r lluniau canlynol arnynt. Bydd angen Beiblau. Ysgrifennwch y cyfeiriadau Beiblaidd ar gardiau ar wahân. Gadewch i'r plant weithio mewn paru neu grwpiau bach i ddod o hyd i'r adnodau yn y Beibl a'u darllen, un grŵp ar y tro. Gaiff y plant ddewis pa gerdyn Nadolig sydd fwyaf addas i'w darlleniad.

1. Llun o Mair – Luc 1:26–31
2. Llun o Mair a Joseff yn teithio i Fethlehem – Luc 2:1–4
3. Y bugeiliaid – Luc 2:8–15
4. Y stabl – Luc 2:6,7
5. Y gwŷr doeth – Mathew 2:1,2,9–11
6. Seren – Luc 2:10,11

Cymhwyso

Darllenwch yr adnod gyda'r plant ac esboniwch fod 3 enw yn cael eu rhoi i Iesu yn yr adnod. Ydy'r plant yn gallu dod o hyd iddynt? Ydy'r enwau ddim yn rhai cyfarwydd ond mae gan bob enw ystyr fel y mae gan ein

henwau ninnau ystyr. Rhwch esiampl i'r plant, e.e. ystyr eich enw chi.

Cyfeiriwch yn ôl at yr hanes o'r papur newydd am y person a chafodd ei achub. Enw am berson sydd yn achub rhywun arall ydy "Achubwr." Pam oedd yr angylion yn galw Iesu yn "Achubwr"? Mae'r Beibl yn dweud ein bod ni i gyd mewn perygl, fel y bobl/person yn yr hanes o'r papur newydd. Mae ein bywydau ninnau yn llawn o bechod ac mae'n rhaid i ni gael gwared â phechod er mwyn cael bod yn ffrind i Dduw. Daeth Iesu Grist i'r byd i gymryd ein pechodau ni i ffwrdd pan fu farw ar y groes. Os ydym yn dweud sori am ein pechodau a gofyn i Dduw faddau i ni, gallwn ddod yn rhan o deulu Duw a bydd Iesu yn dod i fyw yn ein calon. Dyma'r newyddion da yr oedd yr angylion yn ei gyhoeddi.

Adnod i ddysgu

Luc 2:10,11 - "Peidiwch bod ofn. Mae gen i newyddion da i chi! Newyddion fydd yn gwneud pobl ym mhobman yn llawen iawn. Mae eich Achubwr wedi cael ei eni heddiw, ym Methlehem (tref y Brenin Dafydd). Ie, y Meseia! Yr Arglwydd!"

Gall blant iau ddysgu - "Peidiwch bod ofn mae gen i newyddion da i chi."

Edrychwch am yr adnod yn y Beibl, darllenwch ac eglurwch yr adnod i'r plant. Ysgrifennwch yr adnod mewn cymalau ar wahanol gardiau Nadolig. Gellir gwneud 6/7 cymal. Os oes lle, gellir rhannu'r plant i dimau a chwarae ras gyfnewid, pan fydd un plentyn ar y tro yn rhedeg i gael cerdyn o ben arall yr ystafell i'r tîm. Os nad oes gennych ddigon o le yna gellir rhannu'r plant i dimau, a rhoi dis i bob tîm. Bydd un plentyn ar y tro yn taflu'r dis, ac os ydynt yn taflu rhif chwech, yna byddant yn derbyn cerdyn. Pan fyddant wedi casglu'r holl gardiau, byddant yn eu gosod yn eu lle ac yn adrodd yr adnod, a'r tîm cyntaf i wneud hyn fydd yn fuddugol.

Cwis

Paratowch restr o gwestiynau o hanes y Nadolig a chwe siâp seren â'r rhifau 10 - 100 wedi eu hysgrifennu ar y cefn. Trowch y sêr fel bod y rhifau wedi eu cuddio. Rhannwch y plant i dimau a gofyn cwestiwn i'r timau yn eu tro. Os yw'r tîm yn ateb y cwestiwn yn gywir yna byddant yn cael derbyn seren, a datgelu'r rhif sydd ar y cefn, a dyma'r nifer o bwyntiau y byddant yn ei dderbyn. Parhewch nes bod yr holl gwestiynau wedi eu gofyn, ac yna adio'r pwyntiau i weld pa dîm sydd yn fuddugol.

Gweddïau

Darllenwch y weddi ganlynol, gyda'r plant yn ail-adrodd y geiriau mewn 'italics':

'Iesu, Mae'r Nadolig yn amser cyffrous iawn i ni ... *Helpa ni i gofio amdanat ti Rydyn ni'n hoff o baratoi at y Nadolig ... Helpa ni i gofio amdanat ti Rydyn ni'n hoffi rhoi anrhegion i eraill ... Helpa ni i gofio amdanat ti Rydyn ni'n edrych ymlaen at bartïon ac anrhegion ... Helpa ni i gofio amdanat ti Diolch iti Iesu am gael dy eni ym Methlehem ... Helpa ni i gofio amdanat ti. Amen'.*

Meddylwch am rai o'r penawdau a ddefnyddiwyd yn y cyflwyniad. Neu, edrychwch ar bapurau newydd gyda'r plant. Dewiswch rai sy'n newyddion da er mwyn diolch i Dduw, a newyddion drwg i ofyn am gymorth Duw.

Adnoddau Ychwanegol

Crefft

Llyfr Crefftau Stori Duw i blant dan 11 oed *Geni Iesu* tud. 122

Gwerslyfrau Golau ar y Gair

Y Nadolig, Nadolig: Goleuni'r Byd
Nadolig: Rhodd Duw

Taflenni gwefan amserbeibl.org

Cyfres A, B a C - Stori'r Nadolig

Cyfres DVD Stori Duw

Stori 32: Y Nadolig Cyntaf

Cwis a Chwilair

Llyfr Cwis Cynta i Ateb, tud 322

Cyfres PowerPoints Beibl Bach i Blant

Cyflwyniad 33: Mair a'r angel

Cyflwyniad 34: Y Babi Arbennig

Cyflwyniadau Powerpoint visionforchildren

Immanuel

Llyfrau Stori

Geni Iesu a'r Nadolig

Seren Ryfeddol

Fy Nadolig Cyntaf

Un Noson Serennog

Pwy fu ym Methlehem?

Croeso i'r Baban Iesu

Tair Taith y Nadolig

Y Bugail Blin

